TRAFNIDIAETH CYMRU
TRANSPORT FOR WALES

**Dyddiad cyhoeddi:** 15 Tachwedd 2021

# Cais Rhyddid Gwybodaeth

Rydym ni'n ysgrifennu atoch i ymateb i'r Cais Rhyddid Gwybodaeth a wnaethoch. Mae eich cais wedi cael ei ystyried yn unol â gofynion y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth a'n polisi mynediad at wybodaeth.

# Atebion i'ch Cwestiynau

1. **Pwy sy'n darparu gwasanaethau yn lle trenau i Trafnidiaeth Cymru ar hyn o bryd?**

Abellio yw'r cyflenwr presennol.

2. **Faint, bob awr, y mae Trafnidiaeth Cymru yn gorfod talu am fws sy'n addas i gadeiriau olwyn a bws mini sy'n addas i gadeiriau olwyn ar gyfer gwasanaethau yn lle trenau?**

Mae'r wybodaeth hon wedi'i heithrio rhag cael ei datgelu o dan Adran 43 Deddf Rhyddid Gwybodaeth (2000) (niwed i fuddiannau masnachol). Mae rhyddhau'r wybodaeth hon tra bo ymarfer tendro ar waith ar gyfer y gwasanaethau hyn yn debygol o niweidio buddiannau masnachol y cyflenwr presennol a TrC. Mae rhagor o wybodaeth am yr eithriad hwn ar gael yma.

Mae'n hanfodol bod TrC yn cymryd gofal i gynnal uniondeb ei broses gaffael er mwyn sicrhau'r gwerth gorau am arian y trethdalwyr. Mae datgelu pwyntiau prisiau ein cyflenwr presennol, Abellio, yn debygol o danseilio'r ymddiriedaeth a'r hyder sydd ganddo yn TrC. Mae hefyd yn bosibl y bydd darpar gystadleuwyr yn sylwi ar y ffordd y mae TrC wedi trin cynigydd llwyddiannus. Yn eu tro, efallai y byddant yn colli hyder ynom, gan bryderu y byddem yn rhyddhau eu gwybodaeth fasnachol sensitif i'r cyhoedd pe baent yn gwneud cais llwyddiannus am un o'n contractau. Byddai hyn yn cael effaith negyddol sylweddol ar ein huniondeb, ac mae'n debygol y byddai'r sefydliadau hyn yn amharod i gymryd rhan mewn ymarfer tendro gan TrC. Byddai hyn yn debygol o niweidio buddiannau masnachol TrC gan ei bod yn hanfodol ein bod yn denu cyfoeth o gystadleuwyr i sicrhau bod ystyriaeth briodol yn cael ei rhoi i sicrhau gwerth am arian cyhoeddus Cymru. O'r herwydd, nid yw datgelu'r wybodaeth hon o fudd i'r cyhoedd.

Byddai rhyddhau'r wybodaeth hon hefyd yn debygol o niweidio buddiannau masnachol y cyflenwr presennol, ni waeth a ydynt yn penderfynu cymryd rhan yn yr ymarfer ail-dendro gweithredol ai peidio, gan y byddai eu pwyntiau prisiau ar gael i'r cyhoedd ac y gallent ddylanwadu ar y farchnad yn artiffisial drwy hysbysu cynigion eu cystadleuwyr. Byddai hyn yn wir pe bai Abellio yn gwneud cais am ragor o waith gan TrC, neu mewn rhan arall o'r sector cyhoeddus.

3. **Pam mae'r contract gwasanaeth yn lle trenau yn cael ei ail-dendro mor fuan?**

Mae'r rheswm dros ail-dendro'r contract hwn yn gynharach na'r disgwyl yn fasnachol sensitif ac mae wedi'i eithrio rhag cael ei ddatgelu o dan Adran 43 o'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth (niwed i fuddiannau masnachol). Mae adran 43 yn eithriad wedi'i gymhwyso, sy'n golygu bod yn rhaid i ni ystyried budd y cyhoedd wrth ei gymhwyso. Yn yr achos hwn, rydym yn credu y byddai rhyddhau'r

TRAFNIDIAETH CYMRU
TRANSPORT FOR WALES

wybodaeth hon yn debygol o niweidio buddiannau masnachol y partïon dan sylw. Byddai datgelu'r wybodaeth hon yn cael effaith negyddol ar allu TrC i gystadlu'n fasnachol; ac fel corff cyhoeddus sy'n gorfod sicrhau'r gwerth gorau am arian ar gyfer arian cyhoeddus Cymru, rydym yn credu bod budd y cyhoedd yn disgyn o blaid defnyddio'r eithriad hwn, yn hytrach na datgelu'r wybodaeth.

Gobeithio y bydd yr wybodaeth hon yn ddefnyddiol i chi.

Yn gywir,

**Trafnidiaeth Cymru**

**Hawliau Apelio**

Os ydych chi'n anhapus â'r ffordd y cafodd eich cais ei drin a'ch bod chi'n dymuno gwneud cwyn neu wneud cais am adolygiad o'n penderfyniad, ysgrifennwch at y Pennaeth Rhyddid Gwybodaeth naill ai yn Trafnidiaeth Cymru, 3 Llys Cadwyn, Pontypridd, CF37 4TH neu freedomofinformation@tfw.wales. Rhaid i'ch cais gael ei gyflwyno cyn pen 40 diwrnod gwaith ar ôl derbyn y llythyr hwn. Os nad ydych chi'n fodlon â chanlyniad yr adolygiad mewnol, mae gennych hawl i wneud cais yn uniongyrchol i'r Comisiynydd Gwybodaeth am benderfyniad.

Gallwch chi gysylltu â'r Comisiynydd Gwybodaeth yn Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth, Wycliffe House, Water Lane, Wilmslow, Swydd Gaer, SK9 5AF neu gallwch chi gysylltu â Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth drwy adran 'Gwneud Cwyn' eu gwefan ar y ddolen hon: https:/ico.org.uk/make-a-complaint/

Yr adran berthnasol i'w dewis fydd "Gwybodaeth Swyddogol neu Gyhoeddus".